

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL

BIL PLANT A THEULUOEDD: DIWYGIO ADRAN 38 O DDEDDF PLANT A PHOBL IFANC 1963

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn o dan Reol Sefydlog (SO) 29.2. Mae SO29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y gellir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n perthyn i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n diwygio cymhwysedd o'r fath.
2. Cyflwynwyd y Bil Plant a Theuluoedd ("y Bil") yn y Tŷ Cyffredin ar 4 Chwefror 2013. Gellir gweld y Bil yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2012-13/childrenandfamilies.html>

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Caiff y Bil ei noddi gan yr Adran Addysg i wneud newidiadau deddfwriaethol er mwyn diwygio cymorth i blant a theuluoedd. Mae hanner cyntaf y Bil yn ceisio gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc drwy ddiwygio'r systemau ar gyfer mabwysiadu, Plant sy'n Derbyn Gofal, cyfiawnder teuluol ac Anghenion Addysgol Arbennig. Mae'r ail hanner yn ceisio cymell twf yn y sector gofal plant, hyrwyddo rhannu absenoldeb rhiant a sicrhau bod gan blant yn Lloegr eiriolwyr cryf dros eu hawliau.
4. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau'n ymwneud â'r canlynol:
 - (a) Mabwysiadu – sicrhau diwygiadau o ran y canlynol: lleihau oedi yn y system fabwysiadu; ehangu'r defnydd o 'Faethu ar gyfer Mabwysiadu'; gwella'r cymorth sydd ar gael i fabwysiadwyr a threfniadau recriwtio ac asesu darpar fabwysiadwyr, a gwneud Cofrestr y Ddeddf Mabwysiadu a Phlant yn gofrestr statudol o ran ei chymhwysiad yn Lloegr.
 - (b) Diwygio'r system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr^[1] i fynd i'r afael ag oedi mewn achosion cyfraith gyhoeddus;
 - trwy weithredu cyfyngiad amser o 26 wythnos ar gyfer achosion gofal a goruchwyllo; lleihau'r defnydd gormodol o adroddiadau arbenigwyr; cael gwared ar ddyblygu diangen; a sicrhau bod yr effaith ar y plentyn yn cael ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag amserlen, ac

[1] Yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol o'r system cyfiawnder teuluol ar gyfer Cymru a Lloegr a datganiad ysgrifenedig <http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/justice/?jsessionid=F5E2D1B1C006F79F4176E6D249D006D4?lang=en>
<http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2012/familyjusticereviewupdate/?lang=en>
n ,

- mewn cyfraith deuluol breifat - drwy ei gwneud hi'n ofynnol i rieni fynychu cyfarfod cyfryngu ac asesu teuluoedd cyn gwneud cais i'r llys; anfon neges eglur i rieni sydd wedi gwahanu y bydd y llysoedd yn rhoi sylw i'r egwyddor y dylai'r ddau barhau i fod yn rhan weithredol o fywydau eu plant lle bo hynny'n ddiogel ac er lles y plentyn; a chyflwyno "gorchymyn trefniadau plentyn" newydd er mwyn i'r llysoedd allu gwneud defnydd llawn o bwerau i gyfarwyddo rhieni i gyflawni gweithgareddau sy'n ceisio eu helpu i beri bod trefniadau plant yn gweithio; a symleiddio prosesau ysgaru ar gyfer y llysoedd.
- (c) Diwygio'r system Anghenion Addysgol Arbennig yn Lloegr, er mwyn; gwella cymorth i rai 16 i 25 oed; cynnig cyllideb bersonol i blant a theuluoedd; mynnu gwell cydweithrediad rhwng gwasanaethau; gwybodaeth gliriach ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael; symleiddio prosesau asesu a chynlluniau.
- (d) Gofal plant yn cynnwys cynyddu hyblygrwydd i warchodwyr plant drwy gyflwyno asiantaethau gwarchod plant.
- (e) Plant sy'n derbyn gofal: ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol yn Lloegr bennu swyddog i weithredu fel ei 'Rith-bennaeth Ysgol' ar gyfer y plant sy'n derbyn gofal ganddo; egluro'r hawl i asesiad am gymorth i ofalwyr ifanc a galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno rheoliadau newydd gyda'r nod o godi safonau mewn cartrefi plant.
- (f) Swydd Comisiynydd Plant Lloegr – gwella pwerau'r comisiynydd i hyrwyddo a diogelu hawliau plant a mwy o annibyniaeth oddi ar Lywodraeth y DU. Bydd y newidiadau'n berthnasol i rôl y Comisiynydd o ran hyrwyddo a diogelu hawliau plant yn y gweinyddiaethau datganoledig, ond mewn perthynas â materion heb eu datganoli yn unig.
- (g) Rhannu Absenoldeb Rhiant a Gweithio Hyblyg; cyflwyno system ar gyfer rhannu absenoldeb rhiant a rhannu tâl statudol i rieni yn ogystal â diwygio'r system sy'n rhoi hawl i unigolion ofyn am gael gweithio'n hyblyg.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad yn eu cylch

5. Gofynnir am gydsyniad y Cynulliad i ddiddymu Adran 38 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 trwy'r Bil Plant a Theuluoedd. Mae Adran 38 yn gosod cyfyngiadau fel na all awdurdodau lleol drwyddedu plant o dan 14 oed i gymryd rhan mewn perfformiadau ac eithrio 'lle bo'r plentyn yn actio, neu'n dawnsio mewn bale ac na all y rhan ond cael ei chwarae gan blentyn o'r oedran hwnnw, neu lle bo'r perfformiad yn gyfan gwbl neu'n bennaf gerddorol neu'n cynnwys opera a bale yn unig.' Effaith cyffredinol y diddymu arfaethedig o adran 38 yw cael gwared ar y cyfyngiadau hyn a

galluogi plant o dan 14 oed i gymryd rhan mewn amrywiaeth ehangach o berfformiadau.

6. Mae'r Bil yn cynnwys Cymru hefyd.
7. Nid yw Adran 38 yn rhoi unrhyw bŵer i Weinidogion Cymru i wneud unrhyw is-ddeddfwriaeth. Caiff y rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon, Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968, eu gwneud yn unol ag adrannau 37 a 39 o'r Ddeddf. Mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i ddiwygio'r rheoliadau hynny a byddai darpariaethau'r rheoliadau'n berthnasol i unrhyw drwyddedau a ganiateir i blant o dan 14 oed os diddymir cyfyngiad adran 38. Ni fydd diddymu adran 38 o'r Ddeddf yn effeithio ar y pwerau hynny i wneud rheoliadau.
8. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau hyn yn perthyn i gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau eu bod yn ymwneud ag amddiffyn plant (yng nghyd-destun perfformiadau plant) – mae amddiffyn plant yn bwnc sy'n dod o dan y pennawd lles cymdeithasol ym mharagraff 15, Rhan 1 o Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad

9. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod hi'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan mai dyma'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru ar hyn o bryd.
10. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn ddadleuol ac nid oes Biliau Cynulliad addas ar gyfer gwneud y newid o fewn amserlen debyg i'r hyn a gynigir gan y Bil Plant a Theuluoedd. Byddai cynnwys Cymru yn y gwelliant a gynigir i'r Bil Plant a Theuluoedd yn golygu y gallai ddod i rym yng Nghymru ac yn Lloegr ar yr un pryd, fel nad oes unrhyw gyfnod interim cyn y gellir ei weithredu yng Nghymru pryd y byddai plant yng Nghymru o dan anfantais.
11. Byddai cael gwared ar y ddarpariaeth hon o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 yn galluogi plant o dan 14 oed i gymryd rhan mewn amrywiaeth helaethach o berfformiadau a byddai'n cael y broses drwyddedu i ganolbwyntio ar yr hyn sydd er buddiannau gorau'r plentyn. Byddai hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd am berfformiadau plant yng Nghymru trwy gael gwared ar gyfyngiadau ar blant o dan 14 oed i berfformio ac osgoi rhoi plant yng Nghymru o dan anfantais o gymharu â phlant yn Lloegr.

Goblygiadau ariannol

12. Ni ragwelir bod unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Rhagfyr 2013

